

Biopsi broncosgopig o'r ysgyfaint wedi'i lywio gan uwchsain

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio biopsi broncosgopig o'r ysgyfaint wedi'i lywio gan uwchsain yn y GIG. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio briwiau ymylol ar yr ysgyfaint na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y driniaeth yn llwyddo i dargedu meinwe annormal yn yr ysgyfaint. Fodd bynnag mae'r driniaeth yn cynhyrchu canlyniadau negyddol ffug (canlyniadau sy'n dweud nad yw'r briwiau'n ganseraidd, pam fônt yn ganseraidd mewn gwirionedd). Mae NICE wedi dweud y gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel ffordd o gael sampl biopsi gychwynnol i bobl sydd â briwiau ar yr ysgyfaint, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylai broncosgopyddion sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig gyflawni'r driniaeth hon dan arweiniad broncosgopydd mwy profiadol.

Sylwadau eraill gan NICE

Mae risg bod y driniaeth hon yn cynhyrchu canlyniadau negyddol ffug, felly mae NICE wedi dweud y dylai meddygon gyflawni triniaethau biopsi eraill os ceir unrhyw ganlyniadau negyddol neu amhendant.

*Efallai nad hon yw'r
unig driniaeth bosibl
ar gyfer canfod
briwiau ar yr
ysgyfaint.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch
p'un a yw'n addas i
chi a pha opsiynau
triniaeth eraill sydd
ar gael.*

Biopsi broncosgopig o'r ysgyfaint wedi'i lywio gan uwchsain

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'biopsi trawsbroncaidd wedi'i lywio gan uwchsain endobroncaidd ar gyfer briwiau ymylol ar yr ysgyfaint'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Gellir defnyddio'r driniaeth hon i geisio cael sampl o feinwe mewn cleifion sydd â briwiau ar yr ysgyfaint na ellir eu gweld gan ddefnyddio broncosgopi confensiynol oherwydd nid ydynt yn ymwthio i'r goeden fronciol. Yn aml nid oes symptomau gan y briwiau ymylol hyn ar yr ysgyfaint a chaiff yr annormaledd ei ganfod yn ddamweiniol ar belydr-X o'r frest neu drwy sganio tomograffi cyfrifiadurol (CT). Caiff ei defnyddio i benderfynu a yw'r briwiau'n anfalaen neu'n falaen (canser).

O dan anesthetig lleol neu gyffredinol, gosodir pibell denau, hyblyg (broncosgop) â stiliwr uwchsain drwy drwyn neu geg y claf i mewn i'r ysgyfaint. Ceir delweddau gan ddefnyddio'r stiliwr uwchsain. Mae'r gweithredwr yn defnyddio'r delweddau hyn fel canllaw wrth gymryd samplau o'r briwiau ymylol ar yr ysgyfaint, a wneir gan ddefnyddio offer biopsi arbennig.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth. Mae perygl o ganlyniadau negyddol ffug, felly efallai y bydd angen i chi gael math arall o fiopsi os yw canlyniadau'r driniaeth hon yn negyddol neu'n amhendant.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o chwith?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar naw astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Cymharodd un astudiaeth o 293 o gleifion froncosgopi wedi'i lywio gan uwchsain â broncosgopi ar ei ben ei hun heb uwchsain. Arweiniodd

Gwybodaeth am arweiniad Techlechydd NICE 214

broncosgopi wedi'i lywio gan uwchsain at ddiagnosis o 79% o friwiau malaen a 69% o friwiau anfalaen, o gymharu â broncosgopi ar ei ben ei hun a arweiniodd at ddiagnosis o 55% o friwiau malaen a 44% o friwiau anfalaen.

Mewn astudiaeth o 120 o gleifion cymharwyd cleifion a gafodd froncosgopi wedi'i lywio gan uwchsain â'r rheini a gafodd driniaeth wahanol a elwir yn froncosgopi llywio electromagnetig, neu gyfuniad o'r ddau. Llwyddwyd i wneud diagnosis mewn 69% o friwiau yn y grŵp cyntaf a 59% o friwiau yn yr ail grŵp. Pan gyfunwyd y ddwy dechneg, llwyddwyd i wneud diagnosis mewn 88% o friwiau.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai sefydlu diagnosis cywir, osgoi triniaethau biopsi drwy'r croen wedi'u llywio â CT (hynny yw, lleihau faint o ymbelydredd y caiff y claf ei amlygu iddo) ac a oedd y driniaeth yn dderbyniol i gleifion yw'r ffactorau llwyddiant allweddol.

Risgiau a phroblemau posibl

Nododd pum astudiaeth achosion o niwmothoracs, sef pan fydd aer yn casglu y tu allan i'r ysgyfaint yng ngheudod y frest. Ym mhob un o'r yr astudiaethau, digwyddodd niwmothoracs mewn hyd at 8% o gleifion a gafodd froncosgopi wedi'i lywio gan uwchsain. Digwyddodd niwmothoracs hefyd weithiau pan ddefnyddiwyd technegau eraill i gael samplau.

Edrychodd pum astudiaeth ar waedu, a ddigwyddodd mewn hyd at 6% o gleifion a gafodd froncosgopi wedi'i lywio gan uwchsain.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod problemau posibl yn cynnwys niwmothoracs, gwaedlif a'r posibilrwydd o ganlyniadau negyddol ffug.

Rhagor o wybodaeth am ganser yr ysgyfaint ac abnormaleddau eraill ar yr ysgyfaint.

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar ganser yr ysgyfaint, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'biopsi trawsbroncaidd wedi'i lywio gan uwchsain endobroncaidd ar gyfer briwiau ymylol ar yr ysgyfaint'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn sydd wedi'u hanelu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG214

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8123-6

N2171 1P Mar 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.